

## I ddod

- **CYFARFOD GWEDDI DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghapel Groes nos Fercher, Ionawr 9fed am 7.00.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Mawrth 1af – 3ydd. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan [colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg](http://colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg).
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2019 a hynny rhwng Ebrill 22ain – 25ain. Cynhelir prif ddigwyddiadau'r ŵyl yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac mae nifer cyfyngedig o garafannau ar gael i'w llogi ar safle Kiln Park, Dinbych y Pysgod. Pum munud o daith yn y car sydd i'r ysgol o safle gwyliau Kiln Park, a phum munud o ganol tref Dinbych y Pysgod. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau safle gwyliau Kiln Park yn ystod y dydd, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a thraethau prydfarth Sir Benfro. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de. Mi fydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos, clybiau yn ystod y gwasanaethau a rhyddid i fwynhau gweithgareddau eraill yn y prynhawn. Bydd yn ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano(i). Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) i archebu ac/neu am fwy o fanylion.

*“Ganwyd i chwí heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,  
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” (Luc 2:11)*

## Y Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 6<sup>ed</sup>**.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, Ionawr zil, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Rhagfyr 23<sup>ain</sup> a 30<sup>ain</sup>, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i chi i'n gwasanaethau Nadolig ar draws Bro Aled heddiw. Ac ar ben hynny dyma gyfle i mi ar ran y tîm gweinidogaethol ddymuno Nadolig bendithiol i bawb o ddarllenwyr Llais Bro Aled! Gweddiwn y bydd Duw yn drugarog wrthym dros y cyfnod arbennig hwn ac y bydd clywed hanes geni'r Gwaredwr yn atgyfnerthu'n ffydd a'n diolchgarwch oherwydd fel y cawsom ein hatgoffa gan Rhun yn ein gwasanaeth carolau nos Sul diwethaf – ‘daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid.’ (1 Timotheus 1:15)

Wrth i'r flwyddyn ddod i'w therfyn mae'n rhaid i mi ddiolch i bawb ohonoch am eich cefnogaeth a'ch gweithgarwch yn y Fro ac yn eich eglwysi lleol trwy gydol 2018. Ac wrth i ni edrych ymlaen at ddechrau blwyddyn newydd, dylwn dynnu eich sylw at y newid fydd yn dod i ran nifer ohonom o Sul cyntaf Ionawr ymlaen. Bydd amseroedd nifer o'r gwasanaethau yn newid ynghyd â'r ffaith y byddwn yn cydaddoli gyda'n gilydd fel eglwysi cyfagos yn gyson. Cofiwch gadw golwg fanwl ar Llais Bro Aled pan fydd yn cael ei gyhoeddi, a'i gadw wrth law am bythefnos i'n hwyluso wrth i ni ddod i arfer â'r drefn newydd. Gweddiwn y bydd y cyfan yn fodd i ni brofi bendith Duw wrth i ni addoli gyda'n gilydd yn y sylweddoliad fod y ‘Duw Goruchaf ddim yn byw mewn adeiladau wedi'u codi gan ddynion!’ (Actau 7:48)

Dros y Nadolig byddwn yn dathlu dyfodiad Duw i'n plith ym mherson Iesu. Ond mae Duw yn byw yng nghanol ei bobl yn thema bwysig trwy gydol y Beibl. Os awn yn ôl mor bell ag Exodus 29:45, gwelwn eiriau'r Arglwydd yn datgan y bydd ‘yn preswyllo ymhlith pobl Israel’, ac o neidio i lyfr olaf y Beibl, gwelwn yr un addewid hyfryd i Gristnogion yn Natguddiad 21:1-3. Wrth ddarllen Datguddiad 21, byddwn fel arfer yn canolbwyntio ar y rhan sy'n sôn am y nef newydd a'r ddaear newydd lle na fydd poen, llefain na marwolaeth mwyach. Ond faint o sylw yr ydym wedi ei roi i'r ffaith y bydd Duw yn byw gyda'i bobl? Mae ystyried hyn yn gwneud dyfodiad Crist i'r byd hyd yn oed yn fwy rhyfeddol. Pan anwyd Iesu, gwelwyd ddechrau'r cyflawniad o addewid Duw i ddarparu aberth dros ein pechod, ond cafwyd rhagflas hefyd o'r hyn sydd i ddod am dragwyddoldeb i'r saint. Caiff Cristnogion weld Iesu fel y mae, wyneb yn wyneb, a chael bodoli am byth gyda'r Arglwydd. Dinistriwyd y rhwystrau fu'n ein hatal rhag bod mewn perthynas ag ef trwy fywyd, marwolaeth, ac atgyfodiad Iesu! Does ryfedd fod yr angel wedi dweud wrth y bugeiliaid fod ganddo ‘newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn!’ (Luc 2:10 Beibl.net)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Ni fydd **Oedfa i'r Fro**.
- Mawrth – 25<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** – oedfa deulu yng Nghapel Groes am 9.30.
- Gwener – 28<sup>ain</sup> ➤ **Taith Gerdded Hamddenol i'r Fro** yn ardal Dinbych. Byddwn yn cyfarfod am 10.15 ger maes parcio Melin Brwcws i gychwyn y daith gerdded (byddwch angen esgidiau cerdded neu wellingtons), ac yna mae croeso i chi ddod i gael cinio (neu fyrbryd) ym Melin Brwcws am 12.30. Bydd bwydlen wedi ei pharatoi erbyn bore dydd Gwener er mwyn i ni gael archebu cinio cyn cychwyn ar y daith. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu cysylltwch â Mair.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.
- Mercher – 2<sup>il</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Sadwrn – 5<sup>ed</sup> ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** – Diwrnod ar efengylu yng Nghapel y Bedyddwyr Alfred Place, Alfred Place, Aberystwyth, SY23 2BS o 10.00 – 3.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Rhodri yn pregethu.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Gwasanaethau Nadolig Llansannan: Yr oedolion yn y Granar am 10.00, a Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gyda pharti i ddilyn yn y festri. Croeso i bawb!
- Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 a phaned i ddilyn.
- Mawrth – 25<sup>ain</sup> ➤ Plygain wedi ei drefnu gan Gymdeithas Llansannan yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Iau – 3<sup>ydd</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Cymdeithas y Beibl yn y Festri am 7.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa **am 11.00**. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 a chinio i ddilyn i bawb yn y Neuadd Goffa.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog **am 9.30** a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 10.30.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuentid yn Saron am 11.00. Bydd Siôn Corn yn galw heibio ar ôl y gwasanaeth a bydd parti i bawb. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 2.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Festri.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a phaned a mins pei yn y Festri i ddilyn.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Berain am 10.30**.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a derbynnir rhoddion i Fanc Bwyd, Dinbych, os gwelwch yn dda. Bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn Eglwys Llanefydd am 6.30 yr hwyr.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ **Bore Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30.
- Sul canlynol – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain **am 10.30**.